Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Friog
# Friog
# Fairbourne
# Gwynedd
# LL38 2RQ

## Dyddiad yr arolygiad:  Hydref 2013

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg i).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/12/2013**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Gymunedol Y Friog ym mhentref y Friog ar aber yr Afon Mawddach. Mae'r diwydiant twristiaeth wedi denu nifer o bobl i fyw i'r ardal ac erbyn hyn canran fechan iawn o'r boblogaeth sy'n enedigol o'r pentref. Mae 24% o'r disgyblion wedi'u cofrestru fel rhai â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim ac mae hyn yn uwch na chyfartaleddau cenedlaethol a lleol. Saesneg yw prif iaith cartref yr holl ddisgyblion ac ychydig iawn sy'n siarad y Gymraeg i safon iaith gyntaf.

Mae 28 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ac mae un plentyn o oed meithrin. Mae ychydig o'r disgyblion wedi eu hadnabod fel rhai ag anghenion addysg ychwanegol, gan gynnwys ychydig iawn gyda datganiad. Does dim disgyblion yn yr ysgol yn derbyn cymorth dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol, nac ychwaith unrhyw ddisgybl sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol.

Yn ogystal â'r pennaeth sydd â gofal dosbarth am bedwar diwrnod yr wythnos, mae dwy athrawes ran amser arall. Penodwyd y pennaeth i'w swydd fel pennaeth mewn gofal ym mis Medi 2011. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2007.

Y gyllideb ysgol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymunedol Y Friog yn 2013-2014 yw £5,882. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £10,616 a'r lleiafswm yw £2,936. Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Y Friog yn y 18fed safle allan o'r 103 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Anfoddhaol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn anfoddhaol oherwydd:

- nid yw y rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyflawni safonau digon uchel mewn llythrennedd, rhifedd na TGCh;
- nid yw'r disgyblion mwyaf galluog yn gwneud cynnydd priodol wrth iddynt symud drwy'r ysgol;
- nid oes gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer asesu cynnydd disgyblion;
- nid yw'r marcio yn gwneud digon i ddangos i'r disgyblion yr hyn i'w wneud i wella safon eu gwaith; ac
- nid yw'r trefniadau ar gyfer cynllunio datblygiad medrau disgyblion yn ddigon effeithiol.

Fodd bynnag:

- mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar gydag ethos croesawgar;
- mae safonau ymddygiad y disgyblion yn dda; ac
- mae iechyd a lles y disgyblion yn cael eu hyrwyddo'n effeithiol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- gweledigaeth y pennaeth a'r staff ar wella lles y disgyblion yn effeithiol;
- y pennaeth wedi pennu agweddau pwysig ar gyfer gwella, gyda'r staff wedi ymrwymo i sicrhau gwelliannau parhaus;
- yr adroddiad hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac yn dathlu rhai o gryfderau'r ysgol ac yn adnabod rhai o'r materion i'w datblygu yn gywir; a
- sefydlogrwydd o ran arweinyddiaeth yr ysgol.

Er hynny:

- nid yw'r trefniadau diweddar wedi cael digon o amser i effeithio'n llawn ar agweddau ar fywyd yr ysgol;
- nid yw rôl y corff llywodraethol fel cyfaill beirniadol wedi datblygu'n llawn;
- nid yw'r ysgol wedi llwyddo i ymateb yn llawn i argymhellion yr arolygiad diwethaf; ac
- nid yw'r arweinwyr a llywodraethwyr wedi sicrhau cynnydd priodol yn y safonau llythrennedd a rhifedd a gyflawnir gan ddisgyblion.

## Argymhellion

A1 codi safonau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm

A2 codi safonau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

A3 gwella ansawdd yr addysgu a sicrhau bod athrawon yn herio pob disgybl, ac yn arbennig y disgyblion mwyaf galluog

A4 cryfhau'r systemau asesu ac asesu ar gyfer dysgu

A5 cryfhau arweinyddiaeth a rheolaeth strategol yr ysgol

A6 sicrhau bod proses hunanarfarnu'r ysgol yn fwy arfarnol a bod monitro yn ffocysu'n fwy penodol ar godi safonau

A7 cryfhau rôl y corff llywodraethol fel cyfaill beirniadol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Safonau: Anfoddhaol**

Yn y gwersi, mae safonau cyflawniad y disgyblion yn ddigonol, ond nid yw eu gwaith dros gyfnod yn y llyfrau yn adlewyrchu hyn.

Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau llefaredd addas gan y rhan fwyaf o ddisgyblion. Fodd bynnag, yn y gwersi, nid oes digon o gynnydd yng ngallu'r disgyblion i gyfrannu'n fwy estynedig ar lafar yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ar y cyfan, maent yn wrandawyr da, ond nid oes gan leiafrif ohonynt ddigon o hyder i ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithio ar dasgau grŵp.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn darllen eu gwaith eu hunain a'u llyfrau darllen i safon sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Er hynny, nid yw lleiafrif y disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn cael digon o gyfleoedd i ddarllen deunyddiau Cymraeg sydd yn rhoi digon o her iddynt.

Mae gallu'r disgyblion i ysgrifennu'n annibynnol yn dechrau datblygu'n briodol. Serch hynny, erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, nid yw'r mwyafrif yn ysgrifennu dilyniant o frawddegau i wahanol bwrpasau ar draws y cwricwlwm, gan ddangos gafael briodol ar atalnodi sylfaenol. Nid yw disgyblion o allu uwch yn gwneud digon o gynnydd yn eu gallu i ysgrifennu'n estynedig i ystod ehangach o bwrpasau oherwydd diffyg cyfleoedd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn medru darllen deunyddiau pwrpasol yn lled ystyrlon yn y Saesneg a'r Gymraeg. Maent yn siarad yn eiddgar am lyfrau ac awduron y maent yn eu hoffi neu heb fod yn eu hoffi. Fodd bynnag, cyfyngedig yw eu gallu i drafod cymeriadau a themâu ac i ddod o hyd i gyfeirlyfrau a'u defnyddio'n annibynnol i gasglu gwybodaeth i gefnogi'u dysgu mewn pynciau gwahanol.

Nid yw mwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ysgrifennu'n estynedig yn eu geiriau eu hunain oherwydd y diffyg cyfleoedd. Nid oes digon o gynnydd yn eu gallu i ysgrifennu'n rhydd i ystod o bwrpasau mewn cyd-destunau ar draws y cwricwlwm, ynghyd â'u gallu i ysgrifennu darnau creadigol a dychmygus.

Ychydig o dystiolaeth sydd fod disgyblion yn datblygu'r dechneg o ddrafftio, prawfddarllen a gwella'u gwaith o ganlyniad i hyn. Nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym mlwyddyn 6, gan gynnwys y rhai mwy galluog, yn sillafu geiriau'n gywir yn y ddwy iaith. Anghyson yw ansawdd cyflwyniad y gwaith a safon llawysgrifen y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2.

Nid yw medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n addas wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol. Mae mwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 2 yn betrusgar wrth wneud cyfrifiadau pen syml ac nid ydynt yn datblygu medrau datrys

problemau'n effeithiol. Nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn ddigonol mewn pynciau heblaw am fathemateg.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n fedrus ar gyfer prosesu geiriau, ond nid oes dilyniant priodol yng ngwaith disgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu defnydd o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd addas.

Nid oes adroddiad data ar ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen na chyfnod allweddol 2. Mae hyn oherwydd bod nifer y disgyblion a aseswyd rhwng 2012 a 2013 yn rhy ychydig i adrodd heb adnabod disgyblion unigol. Mae tueddiadau dros gyfnod o ddwy flynedd mewn cyflawniad disgyblion yn y Dangosydd Cyfnod Sylfaen yn amrywio o gymharu â'r teulu o ysgolion.

**Lles: Da**

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel iawn a hapus yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyngor. Mae gan bob disgybl ymwybyddiaeth briodol o'r angen i gadw'n heini ac i fwyta'n iach. Manteisia llawer o'r disgyblion ar weithgareddau ffitrwydd, chwaraeon a chlybiau ar ôl ysgol ac mae hyn yn cael effaith dda ar eu hiechyd corfforol.

Mae llawer o'r disgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd yn eu gwersi a'u gweithgareddau. O ganlyniad, mae datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol bron pob disgybl yn dda. Fodd bynnag, dechrau datblygu mae eu medrau i wella eu dysgu eu hunain a lleiafrif sydd â'r hyder a'r gallu i asesu eu gwaith eu hunain.

Mae'r holl ddisgyblion yn elwa o gyswllt gyda sefydliadau ac unigolion yn y gymuned er mwyn atgyfnerthu eu gwybodaeth o'r ardal leol, a meithrin medrau cymdeithasol a medrau bywyd o safon dda.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn cydweithio'n effeithiol wrth wneud penderfyniadau ac yn cynrychioli barn y disgyblion yn feddylgar. Cyfranna'r Cyngor Ysgol yn bwrpasol iawn i brosesau gwneud penderfyniadau o fewn yr ysgol.

Mae canran presenoldeb yr ysgol wedi amrywio dros y blynyddoedd diweddar. Roedd y ganran ar gyfer 2011-12 yn gosod yr ysgol ymysg y 50% uchaf o ysgolion tebyg a bu'r ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae prydlondeb yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r cynllunio yn y Cyfnod Sylfaen yn briodol ac yn ennyn diddordeb y disgyblion yn addas. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau. Mae'r rhain yn cynnwys

ymweliadau a gweithgareddau oddi ar y safle sy'n cyfrannu'n effeithiol at y ddarpariaeth a phrofiadau'r disgyblion.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu'r medrau allweddol yn datblygu'n briodol. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion ysgrifennu yn estynedig ar draws y cwricwlwm ac mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn llesteirio eu cynnydd. Nid yw'r medrau rhifedd a TGCh yn cael eu hatgyfnerthu'n ddigonol bob amser ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn datblygu'n addas. Mae'r athrawon yn defnyddio Cymraeg yn rheolaidd yn y rhan fwyaf o'r gwersi, ond nid yw'r cynllunio bob amser yn caniatáu i ddisgyblion adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn datblygu'n addas, ond nid yw'r ysgol bob amser yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o hanes a daearyddiaeth Cymru'n effeithiol. Mae cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn galluogi disgyblion i wella'u defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu'n dda.

**Addysgu: Digonol**

Mae bron pob un o'r athrawon a'r staff cymorth yn defnyddio Cymraeg a Saesneg yn addas yn eu gwersi. Mae'r athrawon yn defnyddio strategaethau priodol i annog ymddygiad da disgyblion ac maent yn canmol y disgyblion yn effeithiol i wella'u hyder.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae perthynas dda rhwng yr athrawon â'r disgyblion. Maent yn cynllunio gwersi ac yn trefnu'u dosbarthiadau'n effeithiol, yn gwneud defnydd da o'r staff cymorth, yn rhannu amcanion dysgu â'r disgyblion ac mae disgwyliadau uchel o ran ymddygiad a dysgu. Mewn lleiafrif o wersi nid yw athrawon yn cynllunio'u gwersi'n ddigon da, ac mae diffyg her a sialens i'r disgyblion, yn arbennig i'r rhai mwy galluog.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau asesu, ond nid yw'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o ddadansoddi canfyddiadau asesu, gan gynnwys asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, er mwyn cynllunio'n briodol ar gyfer unigolion. Mae gweithdrefn dracio yn cael ei datblygu er mwyn olrhain cynnydd y disgyblion drwy'r ysgol. Er hynny, nid yw eto wedi gwreiddio'n ddigonol i gael effaith gadarnhaol ar safonau.

Mae ansawdd y marcio yn amrywio. Nid yw'r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn gyson ac nid ydynt yn nodi'n glir beth sydd angen i ddisgyblion ei wneud i wella. Mae targedau unigol gan y disgyblion hŷn i wella'u gwaith. Fodd bynnag, nid oes pwyslais digonol gan yr athrawon ar y targedau ac nid ydynt yn cael effaith gadarnhaol ar safonau. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd cynyddol o strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Fodd bynnag, nid ydynt hyd yma yn cael eu gweithredu yn ddigon cyson ar draws yr ysgol.

Mae adroddiadau i rieni yn glir ac yn bodloni gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar a gofalgar ac mae'r holl staff yn hyrwyddo gwerthoedd uchel. Mae llais y disgybl yn bwysig iawn yn yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad moesol, cymdeithasol, diwylliannol ac ysbrydol yn dda. Mae gan staff yr ysgol berthynas dda gyda'r disgyblion ac mae'r disgyblion yn dangos parch tuag atynt ac yn ymddiried ynddynt. Mae gan yr ysgol y trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach**.**

Mae perthynas addas rhwng yr ysgol ac asiantaethau arbenigol ac mae'r holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r broses ar gyfer adnabod a chefnogi anghenion ychwanegol disgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn mynd i'r afael yn gynnar iawn â darparu cefnogaeth ychwanegol addas i'r disgyblion hynny sydd angen cymorth. Mae gan bob disgybl sydd ar y gofrestr anghenion ychwanegol gynllun addysg unigol addas sydd yn cael ei adolygu'n dymhorol gyda'r rhieni. Mae'r ysgol yn sicrhau bod anghenion unigol yn cael eu diwallu'n llawn.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol Y Friog yn cynnig awyrgylch hapus a chartrefol i'w disgyblion. Mae'n ysgol ofalgar lle caiff disgyblion a staff eu cefnogi a'u parchu. Ceir amgylchedd ac awyrgylch cynhwysol sy'n rhoi cyfle i bawb gyfrannu at fywyd yr ysgol, beth bynnag fo'u cefndir cymdeithasol a'u gallu.

Mae cyflenwad addas o adnoddau dysgu o ansawdd priodol er mwyn diwallu anghenion y cwricwlwm, ond ni wneir y defnydd gorau ohonynt ym mhob gwers. Mae buddsodiadau diweddar ym maes TGCh.

Mae'r ysgol yn gwrando ar lais y disgyblion wrth flaenoriaethu gwariant er mwyn gwella'r amgylcheddau dysgu, cyflwr yr adeilad a'r ardal allanol ac mae datblygiadau diweddar yn y meysydd hyn. Nid yw safle'r ysgol gyfan yn hygyrch i rai ag anableddau. Mae'r toiledau'n lân ac addas a chaiff adeiladau a thir yr ysgol eu cynnal a'u cadw'n foddhaol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r ysgol wedi bod trwy gyfnod ansefydlog dros y chwe blynedd diwethaf. Serch hynny, mae'r pennaeth a'r staff wedi llwyddo i greu awyrgylch positif ble mae'r

disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel ac mae gweledigaeth y pennaeth a'r staff ar wella lles y disgyblion yn effeithiol.

Mae'r pennaeth wedi cyflwyno ystod briodol o bolisïau a strategaethau sy'n dechrau symud yr ysgol yn ei blaen. Fodd bynnag, nid yw'r strategaethau hyn wedi cael amser eto i effeithio ar godi safonau'r disgyblion.

Er bod gan yr ysgol strwythur rheolaethol addas, nid yw aelodau'r tîm yn gyffredinol yn canolbwyntio'n ddigonol ar eu rôl strategol ar draws yr ysgol. O ganlyniad, nid oes digon o bwyslais ar wella safonau a deilliannau disgyblion.

Ar y cyfan, mae'r llywodraethwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn gefnogol i'r ysgol. Maent yn ymweld â'r ysgol yn weddol gyson at wahanol ddibenion. Serch hynny, nid yw'r corff llywodraethol yn herio'r ysgol ddigon i ysgogi gwelliant mewn safonau ac nid ydynt yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn ddigon cadarn.

Mae'r arweinwyr a'r rheolwyr wedi llwyddo i ddatblygu rhai mentrau cenedlaethol yn llwyddiannus, er enghraifft y Cyfnod Sylfaen. Yn ddiweddar, mae'r athrawon wedi datblygu dull cydlynus o gyflwyno'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2 sy'n ystyried medrau allweddol a medrau meddwl y disgyblion.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae arweinwyr wedi adnabod agweddau pwysig ar berfformiad yr ysgol lle mae angen gwelliant. Maent wedi sicrhau cynnydd da mewn safonau lles y disgyblion, er mai ychydig o gynnydd a fu mewn sicrhau gwelliant mewn safonau llythrennedd a rhifedd.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am ystod eang o agweddau ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae dadansoddiadau data yn nodi'n glir y tueddiadau mewn perfformiad o gymharu â chymaryddion cenedlaethol a pherfformiad ysgolion tebyg.

Mae cydlynwyr pynciol wedi archwilio samplau o waith disgyblion ar draws yr ysgol a rhannu'r canfyddiadau mewn cyfarfodydd staff ac, o ganlyniad, mae'r ysgol yn datblygu ei dealltwriaeth o safonau ar draws y gwahanol ddosbarthiadau. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau yn deillio o'r gwaith hwn bob amser yn ddigon treiddgar o ran adnabod agweddau i'w gwella ac nid yw'r broses monitro ei hunan yn ffocysu'n gyson ar godi safonau.

Nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd yn erbyn argymhellion yr arolygiad blaenorol. Mae hyn yn enwedig mewn perthynas â chodi safonau, y ddarpariaeth ar gyfer medrau, y gweithdrefnau asesu a hunanarfarnu.

Mae'r ysgol wedi mynd ati i sefydlu rhwydweithiau o arfer broffesiynol ac mae partneriaethau defnyddiol yn dechrau datblygu gyda rhai ysgolion cynradd lleol, er enghraifft i hyrwyddo medrau darllen y disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cadarnhaol gyda rhieni a gofalwyr. Cynhelir prynhawniau agored yn dymhorol i'r rhieni, staff a disgyblion er mwyn iddynt rannu gwybodaeth a barn am ddatblygiadau'r ysgol. Mae'r ysgol hefyd yn meithrin cysylltiadau da gyda busnesau lleol a'r gymuned ac mae'r disgyblion yn elwa o gyfleoedd i drafod datblygiadau mwyaf diweddar yr ysgol.

Mae cysylltiadau addas gydag asiantaethau amrywiol yn hybu lles a diwallu anghenion penodol disgyblion. Mae'r ysgol wedi cydweithio yn addas gyda rhai o ysgolion y clwstwr ar gymedroli gwaith disgyblion ar y cyd mewn Cymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi meithrin cysylltiadau effeithiol gydag ysgolion eraill i ddatblygu gwaith yr ysgol ymhellach. Mae partneriaeth briodol yn bodoli gyda'r ysgolion uwchradd lleol ac mae trefniadau pontio yn addas i sicrhau trosglwyddo esmwyth i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff sydd â chymwysterau addas i ymgymryd â'u gwaith. Mae'r staff addysgu a'r staff cynorthwyol yn cydweithio'n effeithiol fel tîm. Gwna athrawon ddefnydd priodol o'u hamser ar gyfer cynllunio a pharatoi gwersi.

Mae trefniadau rheoli perfformiad priodol yn eu lle ar gyfer yr holl staff. Fodd bynnag, ni chynigir cyfleoedd rheolaidd i'r staff fynychu cyrsiau hyfforddi priodol, er enghraifft, i ddatblygu eu rôl fel cydlynwyr pynciau ac ar gyfer datblygu safonau llythrennedd a rhifedd. Anghyson yw effaith hyfforddiant ar safonau disgyblion.

Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau, ond ni wneir y defnydd gorau ohonynt bob amser i hyrwyddo'r dysgu.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau ariannol yr ysgol yn briodol ac yn sicrhau eu bod yn gysylltiedig â'r cynllun datblygu. Caiff y gyllideb ei monitro'n addas gan y swyddog cyllid, y llywodraethwyr a'r awdurdod lleol.

O ystyried safonau cyflawniad disgyblion, mae'r gwerth am arian yn anfoddhaol.

# Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Nid oes adroddiad data ar ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen na chyfnod allweddol 2. Mae hyn oherwydd bod nifer y disgyblion a aseswyd rhwng 2012 a 2013 yn rhy ychydig i adrodd heb adnabod disgyblion unigol.  Mae tueddiadau dros gyfnod o ddwy flynedd mewn cyflawniad disgyblion yn y Dangosydd Cyfnod Sylfaen yn amrywio o gymharu â'r teulu o ysgolion

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd addas, ond nid yw'r disgyblion mwyaf galluog yn gwneud cynnydd priodol.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 12 | 12<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 12 | 12<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 12 | 12<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 12 | 12<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 12 | 12<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 12 | 12<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 12 | 12<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 12 | 12<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 12 | 12<br>100%<br>91% | 0<br>0%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 12 | 12<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 12 | 12<br>100%<br>78% | 0<br>0%<br>22% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 12 | 12<br>100%<br>84% | 0<br>0%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

**Ymateb i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| David Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Alwyn Ward | Arolygydd Cymheiriaid |
| Sarah Anne Elliot | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy’r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i’r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae’r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i’r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni’r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.
Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.